# Galwad am Wybodaeth

## Crynodeb

Mae Comisiwn Aber Afon Hafren yn gwahodd ymatebion i alwad am wybodaeth.

Dylid anfon unrhyw wybodaeth berthnasol drwy e-bost i: Severn.Commission@western-gateway.co.uk
Dylid anfon ymatebion trwy e-bost erbyn **3rd Mai 2024.**
Diolch am eich diddordeb mewn darparu tystiolaeth a gwybodaeth i gynorthwyo ein gwaith parhaus. Mae Comisiwn Aber Afon Hafren Porth y Gorllewin wedi ymrwymo i ddatblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o Aber Afon Hafren a'i botensial o ran ynni llanw trwy harneisio safbwyntiau amrywiol a chasglu ymchwil o ansawdd uchel. Yn rhan o'n menter, rydym yn eich gwahodd i gyfrannu drwy rannu eich syniadau, eich profiadau a'ch tystiolaeth sy'n gysylltiedig ag Aber Afon Hafren.
Credwn yn gryf y bydd casglu tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau yn arwain at wneud penderfyniadau mwy gwybodus a chanlyniadau mwy cynhwysfawr.Drwy ymateb i'r Cais am Wybodaeth hon, mae gennych gyfle i chwarae rhan hanfodol wrth lunio canfyddiadau ein hymchwil a dylanwadu ar argymhellion y dyfodol.

## Cefndir

### Porth y Gorllewin

Partneriaeth Porth y Gorllewin yw pwerdy traws-ranbarthol economaidd cyntaf y Deyrnas Gyfunol i groesi dwy wlad. Mae'r bartneriaeth yn ymestyn ar draws De Cymru a Gorllewin Lloegr, ac mae'n dod ag Awdurdodau Lleol, Awdurdod Cyfun, Dinas-ranbarthau, a Llywodraethau Menter Leol (yng Nghymru a San Steffan) at ei gilydd i gydweithio ar yr heriau mawr sy'n wynebu eu cymunedau.Mae'r bartneriaeth wedi ymrwymo i sicrhau bod y 4.4 miliwn o drigolion yn elwa o dwf economaidd tecach, gwyrddach ac yn gallu manteisio ar gyfleoedd ledled ein hardal. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein pum cenhadaeth:

1. Cyfrannu £34 biliwn i economi'r DU;
2. Denu buddsoddiad a hybu allforion gan £4 biliwn;
3. Datgarboneiddio'r economi;
4. Cysylltu cymunedau; a
5. Datgloi arloesi.

Mae Aber Afon Hafren yn ganolog i ni'n ddaearyddol, ac rydym wedi gwybod ers amser maith bod ganddi botensial enfawr i gynhyrchu ynni adnewyddadwy glân. Mae ganddi un o'r ystodau llanw uchaf yn y byd, ac amcangyfrifwyd bod ganddi'r potensial i gynhyrchu 7% o gyfanswm anghenion trydan y DU.
Mae Partneriaeth Porth y Gorllewin yn deall potensial sylweddol Aber Afon Hafren o ran darparu ynni adnewyddadwy glân, ond mae'n cydnabod ei phwysigrwydd amgylcheddol rhyngwladol, a'r rôl ganolog y mae'n ei chwarae yn yr economi leol, ranbarthol a chenedlaethol. Er mwyn adnabod ei botensial llawn, mae angen proses annibynnol, deg a thryloyw arnom i adolygu'r dystiolaeth a gwneud argymhellion.

## Comisiwn Aber Afon Hafren

Ar 12 Mawrth 2024, lansiwyd Comisiwn Aber Hafren gyda chefnogaeth arweinwyr, busnesau a phrifysgolion lleol ledled De Cymru a Gorllewin Lloegr. Sefydlwyd y Comisiwn i archwilio a oes opsiynau ar gyfer harneisio ynni adnewyddadwy yn gynaliadwy yn Aber Afon Hafren. Bydd y Comisiwn yn gweithredu'n annibynnol o Fwrdd Partneriaeth Porth y Gorllewin, i ddarparu cyngor diduedd, arbenigol a datblygu argymhelliad terfynol. Mae'n cael ei gadeirio gan Dr Andrew Garrad CBE ac mae'n cynnwys grŵp amrywiol o bobl o gefndiroedd gwyddonol, peirianneg, amgylcheddol, ariannol a rhanddeiliaid.

Mae gan y Comisiwn gylch gwaith agored i archwilio ystod o opsiynau, a bydd eu canfyddiadau yn ein tywys wrth lunio polisïau, meithrin cydweithrediadau, ac adeiladu consensws ymhlith y grwpiau sydd â diddordeb. Gyda'n gilydd, byddwn yn symud tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, gan hyrwyddo defnydd cyfrifol o'n hadnoddau naturiol.

## Amcanion

Bydd Comisiwn Aber Afon Hafren yn darparu cyngor annibynnol i Fwrdd Partneriaeth Porth y Gorllewin ynghylch a oes opsiynau ymarferol ar gyfer cynhyrchu trydan cynaliadwy o ynni'r llanw yn Aber Afon Hafren ac, os felly, y cyfraniad y gallai ei wneud i economi sero net erbyn 2050.

Bydd yr amcan yn cael ei gyflawni drwy'r tasgau canlynol:

- Adolygu a diweddaru'r sylfaen dystiolaeth ar ei gwedd ehangaf;
- Deall ac asesu: nodweddion ffisegol ac ecolegol yr aber, yn enwedig pwysigrwydd ei hamgylchedd unigryw ac effaith newid hinsawdd yn y dyfodol, y polisi a'r ddeddfwriaeth berthnasol, y defnydd presennol a phosibl o'r aber yn y dyfodol.
- Coladu ac ystyried mentrau ynni'r llanw yn y gorffennol a'r gwersi a ddysgwyd yn eu sgil;
- Adolygu'r gwahanol ddulliau o gynhyrchu trydan o’r adnodd ynni llanw a'u cyfraniad at system ynni yn y dyfodol.
- Nodi'r heriau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol allweddol a'r cyfleoedd o ddatblygu cynlluniau ynni llanw.
- Nodi ffyrdd o ariannu a rheoleiddio prosiectau a allai fod yn hirdymor iawn.

## Ardal Astudiaeth

At ddibenion y gwaith hwn, wrth gyfeirio at 'Aber Afon Hafren' fel ardal yr astudiaeth, mae'r Comisiwn o'r farn bod hyn yn cynnwys o Abertawe ar arfordir De Cymru hyd at Gaerloyw ac ar hyd glannau Lloegr i Minehead.Mae'n cynnwys yr aber ei hun, y draethllin, a'r cefnwlad gysylltiedig gerllaw'r marc penllanw. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod effeithiau a dylanwadau ar Aber Afon Hafren yn ymestyn y tu hwnt i'r ddaearyddiaeth hon, ac felly rydym yn croesawu unrhyw ffactorau eraill y dylid eu hystyried.

Severn Estuary Commission

Western Gateway Porth y Gorllewin

## Galw am Amcanion a Gofynion Gwybodaeth

Mae Atodiad i'r Cais am Wybodaeth hon yn rhestr gryno o gyfeiriadau polisi perthnasol a chyfeiriadau prosiect sydd eisoes wedi'u casglu gan Borth y Gorllewin. Hoffai'r Comisiwn benderfynu a oes unrhyw ffynonellau gwybodaeth ychwanegol y dylai eu hystyried yn ei waith.
Amcan yr alwad hon am Wybodaeth felly yw nodi gwybodaeth y gellir ei darparu i Borth y Gorllewin nad yw wedi'i rhestru yn yr atodiadau.Gallai gwybodaeth o'r fath gynnwys data prosiect posibl gan ddatblygwyr, cyfeiriadau at bolisïau, neu unrhyw ddata arall sy'n ymwneud â materion peirianneg, amgylcheddol neu economaidd-gymdeithasol sy'n berthnasol i Aber Afon Hafren a'i botensial ar gyfer creu ynni llanwol.

Hoffem bwysleisio nad ydym yn gofyn i sefydliadau ddrafftio ymatebion i unrhyw gynllun neu brosiect penodol, ond yn hytrach i ddarparu mynediad at y gwaith presennol a wneir ganddynt, neu wybodaeth a ddelir ganddynt, a allai fod yn berthnasol i amcanion Porth y Gorllewin wrth astudio Aber Afon Hafren fel ffynhonnell ynni llanwol.

Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn cael ei defnyddio fel sail ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Ceisir tystiolaeth yn arbennig yng nghyswllt data ac ymchwil perthnasol sy'n ymwneud ag Aber Afon Hafren, ac effaith prosiectau ynni llanw yn yr aber neu'n fwy cyffredinol, gan roi sylw penodol i:

- Effeithiau ar gyfundrefnau hydrolig, geomorffolegol a gwaddodion yr aber
- Newidiadau cysylltiedig i gynefinoedd a rhywogaethau is-llanwol a rhwng-llanwol
- Effeithiau adardegol, e.e. sgil-effeithiau newidiadau cynefinoedd rhyng-llanwol ar boblogaethau adar
- Effeithiau ar ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr arwyneb a dŵr y tir
- Effeithiau ar symudiadau pysgod a silio o ganlyniad i rwystrau corfforol, a newidiadau mewn cemeg dŵr
- Goblygiadau o ran rheoli perygl llifogydd a draenio tir
- Datblygu ynni morol presennol ac yn y dyfodol
- Defnyddiau eraill o'r aber a gwely'r môr
- Effeithiau strwythurau mawr
- Effeithiau ar longau a masnach porthladdoedd
- Cael gwared ar ddeunyddiau yn y môr a chyfanswm y deunyddiau a gesglir o’r môr
- Effeithiau ar bysgota masnachol
- Effeithiau tirwedd a morlun
- Effeithiau ar ardaloedd a nodwyd o bwysigrwydd treftadaeth archeolegol neu ddiwylliannol posibl
- Costau a budd economaidd-gymdeithasol posibl
- Ôl troed carbon, effeithlonrwydd adnoddau, a gwastraff